



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
The National Assembly for Wales**

**Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig  
The Rural Development Sub-committee**

**Dydd Mercher, 25 Mehefin 2008  
Wednesday, 25 June 2008**

**Cynnwys**  
**Contents**

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon  
Introduction, Apologies and Substitutions
- 3 Ymchwiliad i Ad-drefnu Ysgolion yng Nghefn Gwlad  
Inquiry into Rural School Reorganisation

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y pwyllgor. Yn ogystal,  
cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee.  
In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

**Aelodau'r pwyllgor yn bresennol**  
**Committee members in attendance**

Alun Davies	Llafur (Cadeirydd yr Is-bwyllgor) Labour (Sub-committee Chair)
Michael German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (yn dirprwyo ar ran Mick Bates) Welsh Liberal Democrats (substitute for Mick Bates)
Alun Ffred Jones	Plaid Cymru The Party of Wales
Brynle Williams	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives

**Eraill yn bresennol**  
**Others in attendance**

Lorraine Barrett	Llafur Labour
Matt Dix	Cyn Riant-lywodraethwr Ysgol Mynyddcerrig ac Is-gadeirydd Fforwm Ysgolion Cynradd Sir Gaerfyrddin Previous Parent Governor of Ysgol Mynyddcerrig and Vice-chair of Carmarthenshire Primary Schools Forum
Ffred Ffransis	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

**Swyddogion Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad yn bresennol**  
**Assembly Parliamentary Service officials in attendance**

Joanne Clinton	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Claire Morris	Clerc Clerk

*Dechreuodd y cyfarfod am 11.18 a.m.*  
*The meeting began at 11.18 a.m.*

**Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon**  
**Introduction, Apologies and Substitutions**

- [1] **Alun Davies:** Galwaf y cyfarfod hwn o'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i drefn. Mae angen i mi wneud y datganiadau arferol. Gobeithio bod pawb wedi diffodd eu ffonau symudol a'u BlackBerrys. Nid ydym yn disgwyl prawf larwm tân y bore yma, felly os oes larwm, bydd rhaid inni adael yr ystafell.
- Alun Davies:** I call this meeting of the Rural Development Sub-committee to order. I will begin with the usual announcements. I hope that everyone has switched off their mobile phones and BlackBerrys. We are not expecting a fire alarm test this morning, so should we hear an alarm, we will need to evacuate the room.

11.18 a.m.

**Ymchwiliad i Ad-drefnu Ysgolion yng Nghefn Gwlad**  
**Inquiry into Rural School Reorganisation**

- [2] **Alun Davies:** Dyma'r trydydd cyfarfod i drafod dyfodol ysgolion bach yng
- Alun Davies:** This is the third meeting to discuss the future of small schools in rural

Nghymru wledig ac ad-drefnu ysgolion. Yr ydym eisoes wedi trafod hyn gyda sawl mudiad a sefydliad. Y bore yma, byddwn yn treulio rhywfaint o amser yn trafod tystiolaeth Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

Wales, and school reorganisation. We have already discussed this with several organisations and bodies. This morning, we will spend some time discussing the evidence from Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.

[3] Croesawaf chi i'r cyfarfod y bore yma, Mr Ffransis. Mae Aelodau wedi cael cyfle i ddarllen eich tystiolaeth ysgrifenedig. A fyddai moddi ichi dreulio rhyw ddwy funud yn nodi eich prif sylwadau? Yna, bydd Aelodau yn gofyn cwestiynau i chi am tua 40 munud. Deallaf fod Mr Dix ar ei ffordd yma hefyd.

I welcome you to the meeting this morning, Mr Ffransis. Members have had an opportunity to read your written evidence. Could you spend a few minutes noting your main points? Members will then ask questions of you for around 40 minutes. I understand that Mr Dix is on his way here too.

[4] **Mr Ffransis:** Diolch am y cyfle hwn. Mae Mr Dix ar ei ffordd—mae mewn cyfarfod yn rhinwedd ei waith sydd o'r pwysigrwydd mwyaf, ond bydd yn cyrraedd yn ystod y cyfarfod i ateb cwestiynau yn benodol ynglŷn â'i dystiolaeth am astudiaeth achos Mynyddcerrig.

**Mr Ffransis:** Thank you for this opportunity. Mr Dix is on his way—he is in a meeting pertaining to his work, which is of the greatest importance, but he will join us during the meeting to answer questions specifically regarding his evidence on the Mynyddcerrig case study.

11.20 a.m.

[5] Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle am fy mod yma'n gwisgo dwy het, mewn ffordd. Yr wyf nid yn unig yn llefaru ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, yr wyf hefyd yma fel tad i saith plentyn a fu drwy ysgol bentref. Yr wyf wedi bod drwy'r holl emosiynau. Yn ôl yn 1987, llwyddwyd i gadw'r ysgol ar agor, yn groes i'r rhagolygon, a dwy flynedd yn ddiweddarach, aeth nifer y plant yn yr ysgol o naw i 31, sy'n dangos effaith rhoi sicrwydd i ysgol. Fodd bynnag, yn 2002, wedi i'r olaf o'm plant adael yr ysgol, fe'i caewyd, ac yr wyf wedi mynd drwy sawl emosiwn wrth weld yr effaith a gafodd hynny ar y pentref. O fewn chwe mis, gwelais y siop a'r swyddfa bost yn cau, ac er bod pobl canol oed yn cymdeithasu o hyd, yr ydym wedi colli'r plant a'r bobl o'r oedran i fod yn rhieni ifanc. Yr wyf wedi gweld 12 car gwahanol yn mynd â phlant i ysgol arall. Gwelaf chwalfa'r gymuned.

I am grateful for this opportunity as I am, in some respects, wearing two hats today. Not only am I speaking on behalf of Cymdeithas yr Iaith Gymraeg but I am also here as the father of seven children who have gone through a village school. I have run the gamut of emotions. Back in 1987, the campaign to keep the school open succeeded, contrary to expectations, and two years later, the number of children at that school had gone from nine to 31, which shows the effect that certainty can have. However, in 2002, after the last of our children left the school, it was closed, and I have felt many emotions upon seeing the effect of that on the village. Within six months, I saw the shop and the post office close, and although middle-aged people continue to socialise, we have lost the children and people of the age to be young parents. I have seen 12 different cars taking children to another school. I see the breakdown of a community.

[6] Mae fy nhystiolaeth yn seiliedig ar fy mhrofiadau fy hun o ymgyrchu gyda phobl mewn gwahanol siroedd. Mae'r ddogfen bolisi hon wedi tyfu yn ymateb i'r profiadau.

My evidence is based on my own experiences of campaigning with people in various counties. This policy document has grown in response to those experiences.

[7] Hoffwn rannu â chi yr un gair sy'n crynhoi profiad yr 20 mlynedd diwethaf yn y

I want to share with you the one word that sums up the experience of the past 20 in this

maes hwn: 'rhwystredigaeth'. Rhwystredigaeth ydyw i glywed o hyd mai addysg a lles y plant sydd bennaf ond pan welwn fod mwyafrif yr ysgolion hyn yn llwyddo'n academaidd a bod dim rheswm addysgol dros eu cau, a phan fydd rhywun yn gwyllo'r ffilm am Ysgol Mynyddcerrig ac yn gweld yr effaith drawmatig a gafwyd ar y plant o gau'r ysgol.

[8] Rhwystredigaeth hefyd yw gweld canllawiau adran addysg Llywodraeth y Cynulliad yn cael eu hanwybyddu'n llwyr, heb astudiaeth lawn yn yr un o'r achosion hyn o effaith cau'r ysgol ar addysg y plant, ar y gymuned leol, ac ar y Gymraeg. Mae asesiadau'r awdurdodau sir wedi bod yn wael o ran eu safon, ac eto mae'r awdurdodau wedi cael mynd yn eu blaenau i gau ysgolion.

[9] Mae rhwystredigaeth oherwydd, yn groes i'r canllawiau, ni cheir byth asesiad nac astudiaeth o'r opsiynau eraill. Mewn gwirionedd, mae pawb yn deall mai esgus gwneud y pethau hyn y mae rhywun. Yr oedd rhwystredigaeth hyd at yr wythnos diwethaf gyda phobl yn teimlo nad oedd pwynt mynd drwy'r broses ymgynghori hyd yn oed gan nad oes dim byd byth yn cael ei newid, ac am nad yw apêl byth yn newid dim. Newidiodd hynny yr wythnos diwethaf ac mae hynny'n galonidd mawr i bobl, oherwydd mae pobl yn colli ffydd. Maent yn colli ffydd am eu bod yn colli perchenogaeth ar eu hysgol ac ar ddyfodol addysg eu plant. Maent hefyd yn colli ffydd yn y broses ymgynghori ddemocrataidd, ac mae hynny'n beth peryglus. Felly, rhwystredigaeth sy'n nodweddu hyn oll.

[10] Yn olaf, mae rhwystredigaeth oherwydd bod yr atebion mor amlwg. Mewn ardal wledig a chanddi adnoddau a phoblogaeth brin, rhaid cydlynu gwasanaethau. Rhaid datblygu ysgol gynradd yng nghyd-destun cyffredinol gwasanaethau'r ardal. Mae pawb yn esgus cefnogi hyn, ond mae meddylfryd adrannau'r Llywodraeth yn golygu na all neb gydweithio i gael gwared ar y broblem hon yn gyfannol. Dyna bwysigrwydd yr ymchwiliad hwn. Am y tro cyntaf, dyma bwyllgor nad yw'n bwyllgor addysg a gall edrych ar y darlun cyfan. Felly, diolch ichi am gael dod yma ac

area: 'frustration'. It is frustrating to hear over and again that the education and welfare of children is paramount but to see that most of these schools are succeeding academically and there is no educational reason for closing them, and when you watch the film about Ysgol Mynyddcerrig and see the traumatic effect that the school's closure had on the children.

It is frustrating to see the guidelines of the Assembly Government's education department being completely ignored, with no proper study in any instances of the effect of a school's closure on the children's education, on the local community, or on the Welsh language. Local authorities' assessments have been of a poor quality, and yet they have been allowed to proceed with closure.

It is frustrating because, contrary to the guidelines, no assessment or study of the alternative options is ever carried out. In all honesty, everyone realises that they are just going through the motions. There was frustration up until last week with people feeling that there was no point in bothering with the consultation process as nothing ever seems to change as a result of it, and an appeal never succeeds in changing anything. All that changed last week, which is heartening for people, because people lose heart. They lose heart because they are losing ownership of their school and the future education of their children. They also lose their faith in the democratic process of consultation, which is a dangerous development. Frustration, therefore, is what characterises this.

Last of all, it is frustrating because the answers are so obvious. In a rural area where the resources and the population are so scarce, services must be co-ordinated. The primary school must be developed in the context of overall service provision in the area. People pay lip service to this view, but the mentality of Government departments means that no-one can co-operate to find a holistic solution to this problem. Therein lies the importance of this inquiry. For the first time, this committee is not confined to education and it can look at the complete picture. So, thank you for allowing me to

am eich ymchwiliad. Nid diolch ichi o ran cwrteisi yn unig ydwyf, ond diolch yn bersonol oherwydd fy mhrofiadau ac oherwydd y posibilïad o gael gwardedigaeth a darganfod y ffordd ymlaen. Diolch am bwysigrwydd eich gwaith.

[11] **Alun Davies:** Diolch am hynny. Cyn imi wahodd Alun Ffred i ofyn ei gwestiynau, yr wyf am ofyn cwestiwn. Yr ydych yn dweud yn eich dogfen—ac yr wyf am ddarllen y cyfieithiad Saesneg ohoni—gan ei ailadrodd y bore yma, fod ysgolion bach, yr ysgolion lleiaf, efallai, yn dda iawn o ran addysg plant, gan eu bod yn cynnig yr addysg orau. Dywedwch,

[12] ‘There is a prima facie case for claiming that village schools are very successful educationally’.

[13] Yr ydym wedi clywed tystiolaeth gan Glyn Bramley a David Reynolds nad yw hynny bob tro yn wir, a bod cwestiynau i’w gofyn a yw’r addysg orau i’w chael drwy’r ysgolion lleiaf neu drwy ysgolion sydd ychydig yn fwy. A ydych yn derbyn hynny?

[14] **Mr Ffransis:** Dewisais fy ngeiriau yn ofalus iawn yn fy nghyflwyniad a dweud bod achos prima facie, sef achos i’w ateb, ac yr wyf yn weddol gyfarwydd, dan amgylchiadau eraill, â wynebu achosion llys. Yr achos hwnnw yw mai’r siroedd hynny sydd, at ei gilydd, yn meddu ar y canlyniadau academaidd gorau yw’r siroedd sydd â nifer helaeth o ysgolion gwledig. Yr wyf yn cydnabod bod pob math o resymau am hynny, ac mae’r ffaith bod y gymhareb athro i ddisgybl yn llai mewn ysgolion o’r fath o’r pwys mwyaf. Felly, byddwn yn dweud bod achos prima facie.

[15] Y pwynt yr ydym yn ei wneud yw nad yr agenda addysgol sy’n gyrru’r rhaglen o gau ysgolion, ac nid oes neb hyd yn oed yn honni hynny. Os bydd problem addysgol arbennig mewn ysgol, yr wyf yn barod i gydnabod—a gobeithiaf y bydd hyn yn help i’r pwyllgor—fod y broblem yn fwy os yw’r ysgol yn fach. Er enghraifft, os oes gan ysgol ddau athro, neu ddwy athrawes, ond nid oes arbenigedd chwaraeon na cherddoriaeth gan yr athrawon hynny, mae hynny’n fwy o broblem i ysgol fach nag y byddai i ysgol

appear before you and for your inquiry. I am not thanking you merely out of courtesy; I thank you personally because of my experiences and because of the possibility of finding a solution and a way forward. Thank you for the importance of your work.

**Alun Davies:** Thank you for that. Before I invite Alun Ffred to ask his questions, I want to ask one question. You state in your document—and I will read the English translation of it—and you have repeated this here this morning, that small schools, the smallest schools, perhaps, are excellent for children’s education, as they offer the best education. You say,

We have taken evidence from Glyn Bramley and David Reynolds that that is not always the case and that there are questions to be asked as to whether the best education is delivered through the smallest schools or through slightly larger schools. Do you accept that?

**Mr Ffransis:** I chose my words very carefully in my submission, and I said that there was a prima facie case, namely a case to answer, and I am fairly familiar, in other circumstances, with facing court cases. That case is that those counties that, on the whole, have the best academic results tend to be those that have a substantial number of rural schools. I acknowledge that there are all sorts of reasons for that, and the fact that the teacher-to-pupil ratio is smaller in such schools is of the greatest importance. So, I would say that there is a prima facie case.

The point that we are making is that it is not the educational agenda that is driving the programme of schools closures, and no-one is even claiming that. If there is a specific educational problem in a school, I am willing to acknowledge—and I hope that this helps the committee—that the problem becomes bigger if it is a small school. For example, if a school has two teachers and neither of them can specialise in sport or music, that is a bigger problem for a small school than it is for a large school. That is why we have said

fawr. Dyna pam yr ydym wedi dweud yn ein tystiolaeth nad ydym o'r farn bod y drefn bresennol yn gynaliadwy ychwaith, ond yr hyn sydd ei angen yw rhesymoli cadarnhaol, nid rhesymoli negyddol.

[16] Y ffordd orau o ddatrys y problemau hyn yw drwy sefydlu patrymau gwahanol sy'n gweddu i amgylchiadau lleol, a thrwy gydweithio rhwng ysgolion. Mae hynny'n golygu dod â phlant ysgolion gwahanol at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau gwahanol, megis diwrnodau chwaraeon bob hyn a hyn, a bod athrawon sydd ag arbenigedd mewn cylch o ysgolion yn ymweld â holl ysgolion y cylch. Mae ffyrdd creadigol o ddatrys unrhyw broblemau addysgol o'r fath gan roi sicrwydd i blant oedran babanod y byddant yn cael addysg yn y gymuned, mewn adeilad y byddant wedi dod yn gyfarwydd ag ef oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio at bwrpas meithrinfeydd a digwyddiadau cymunedol hefyd. Felly, mae modd cael y gorau o'r ddau fyd drwy resymoli yn gadarnhaol.

[17] **Alun Ffred Jones:** I ddychwelyd at y dechrau, yn eich diffiniad yr ydych yn sôn am 'ysgol bentrefol Gymraeg'.

[18] **Mr Ffransis:** Derbyniaf fod diffiniadau weithiau yn gallu bod o help ond weithiau yn rhwystr. Y gwirionedd yw bod rhaid, yn ôl y broses statudol, edrych ar bob ysgol yn ôl ei haeddiant a'i hamgylchiadau ei hun. Felly, mae categorïau yn gallu bod yn anodd. Fodd bynnag, at bwrpas creu rheoliadau, mae angen diffiniadau.

[19] Mae dwy ran i'ch cwestiwn, sef beth yw 'ysgol bentref' a beth yw 'ysgol bentref Gymraeg'. At bwrpas y rheoliadau, y diffiniad a ddefnyddir o 'ysgol bentref'—a dyna sydd o dan y chwyddwydr ar y funud—yw ysgol sydd â llai na 90 o blant mewn dosbarthiadau oedran cymysg ac sydd mewn ardal wledig. Mewn 'ysgol bentref Gymraeg', y Gymraeg yw prif gyfrwng yr addysg.

[20] Yr ydym yn dadlau mai dyna sydd fwyaf llwyddiannus. Er ein bod yn derbyn bod y Gymraeg yn gyfrwng yr addysg a geir mewn nifer o ysgolion mwy o faint, mae disgyblion yn fwy tebygol o fagu agweddau

in our evidence that we also do not believe that the current system is sustainable either, but that what we need is positive rationalisation, not negative rationalisation.

The best way to solve these problems is by finding different patterns to fit local circumstances, and by getting schools to co-operate. That means bringing children from different schools together to undertake different activities, such as sports days every now and then, and teachers who have a certain specialism within a catchment area could visit all the different schools in that catchment. There are creative ways of solving any such educational problems, which also give a reassurance to children of infant-school age that they will get their education in the community, hopefully in a building that they have become familiar with, because it is also used for nursery schools and for other community events. So, it is possible to have the best of both worlds using positive rationalisation.

**Alun Ffred Jones:** To return to the beginning, in your definition you talk about a 'Welsh village school'.

**Mr Ffransis:** I accept that definitions can sometimes be of assistance and sometimes a barrier. The truth is that, according to the statutory process, each school must be looked at in light of its own achievements and its own circumstances. So, categories can be difficult. However, for the purposes of creating regulations, you need definitions.

There are two parts to the question, namely what constitutes a 'village school' and a 'Welsh-medium village school'. For the purposes of the regulations, the definition used for a small village school—which is under the microscope at the moment—is a school with fewer than 90 children in mixed-age classes that is in a rural area. In a 'Welsh-medium village school', Welsh is the main medium for education.

We are arguing that that is the most successful model. While we accept that Welsh is also the medium of education in bigger schools, pupils are more likely to adopt favourable attitudes towards the Welsh

ffafrïol at y Gymraeg mewn ysgol sy'n perthyn i'w cymuned a phan fyddant ymhlith y cyfeillion y maent yn eu gweld y tu allan i'r ysgol. Byddant wedyn yn gweld yr iaith yn gyfrwng cyfathrebu cymunedol ac nid yn gyfrwng cyfathrebu academaidd yn unig.

[21] **Alun Ffred Jones:** Felly, nid ydych yn diffinio hynny fel ysgol ar gyfer plant o gartrefi Cymraeg.

[22] **Mr Ffransis:** Na, dim o gwbl.

11.30 a.m.

[23] **Alun Ffred Jones:** Felly, mae'n iawn cyhyd â bod ysgol arall i lawr y lôn yn cynnig yr un peth. Mewn sawl sir, mae'r ysgolion i gyd o'r un categori, er nad yw hynny'n wir am bob sir. Felly, mewn gwirionedd, ni fyddai gwahaniaeth o ran ansawdd yr addysg a ddarperir yn y ddwy ysgol.

[24] **Mr Ffransis:** Yr wyf yn anghytuno â hynny. Credaf fod rhaid ystyried ansawdd addysg o ran meini prawf ehangach na dim ond canlyniadau academaidd. Credaf fod cefnogaeth gymunedol ac ymwneud rhieni ag ysgolion yn feini prawf addysgol o bwys.

[25] O ran yr effaith ar y Gymraeg, gobeithio y cewch gyfle i groesholi Matt Dix ynghylch astudiaeth achos ysgol Mynyddcerrig. Yr oedd y mwyafrif enfawr o ddisgyblion yr ysgol yn dod o gartrefi di-Gymraeg ond yr oeddent yn cael eu tynnu i mewn i weithgareddau cymunedol Cymraeg ac maent yn awr yn ystyried y Gymraeg yn brif gyfrwng cyfathrebu oherwydd eu profiad o fynychu'r ysgol. Pe baent wedi cael eu trosglwyddo i Ysgol Gynradd Pontyberem, byddent wedi cysylltu'r Gymraeg â'u profiad addysgol yn unig, yn hytrach na chyda'u profiad cymunedol.

[26] **Alun Ffred Jones:** A oes unrhyw dystiolaeth bod gan blant sy'n cael addysg mewn ysgolion bach Cymraeg ymagwedd wahanol i'r plant sy'n mynychu ysgolion Cymraeg mwy?

[27] **Mr Ffransis:** Mae'n ddrwg gennyf; mae'n siŵr nad wyf yn esbonio'r pwynt yn ddigon clir. I ddefnyddio'r enghraifft honno,

language in a school that belongs to their community and when they are among the friends whom they see outside school. They will then see the language as a community communication medium, not just an academic communication medium.

**Alun Ffred Jones:** So, you are not defining this as a school for children from Welsh-speaking homes.

**Mr Ffransis:** No, not at all.

**Alun Ffred Jones:** So, it is okay as long as another school down the road offers the same thing. In several counties, the schools are in the same category, although that is not true of all counties. Therefore, in reality, there would be no difference in the quality of the education provided at both schools.

**Mr Ffransis:** I disagree with that. I believe that the quality of education must be judged according to broader criteria than just academic results. I believe that community support and parent involvement in schools are important educational criteria.

On the effect on the Welsh language, I hope that you will have an opportunity to cross-examine Matt Dix about the case study involving Mynyddcerrig school. The vast majority of the schoolchildren came from non-Welsh-speaking backgrounds but they were drawn into Welsh-language community activities and they now consider Welsh to be their main medium of communication because of their experience of attending the school. Had they been transferred to Pontyberem Primary School, they would have associated the Welsh language with their educational experience only, rather than with their community experience.

**Alun Ffred Jones:** Is there any evidence that children who are taught in small Welsh-medium schools have a different attitude to those who attend larger Welsh-medium schools?

**Ms Ffransis:** I am sorry; I am probably not explaining the point very clearly. To use that example, Pontyberem school is a large school



mae ysgol Pontyberem yn ysgol fawr gyda 200 o blant, ac yr wyf yn siŵr bod profiad y plant sy'n mynychu ysgol Pontyberem yr un mor gyfoethog â phrofiad y sawl sy'n mynychu'r ysgol lai ym Mynyddcerrig. Fodd bynnag, mae problem o ran trosglwyddo plant o'u cymunedau ac i ffwrdd o'u cydnabod i ysgol arall. Dyna'r plant yr effeithir ar eu hymagwedd, gan eu bod yn cysylltu'r Gymraeg nid â'u cymuned a'r hyn sy'n digwydd ar y stryd ond â'r ysgol.

of 200 pupils, and I am sure that the pupils who attend Pontyberem school have as rich an experience as those who attend the smaller school at Mynyddcerrig. However, there is a problem with transferring children from their communities and away from their peers to another school. Those are the children whose attitude is affected, because they associate the Welsh language not with their community and what is happening on the street but with the school.

[28] Mae un pwynt o ran maint ysgolion sy'n arbennig o bwysig, a dyma un o fanteision dosbarthiadau oedran cymysg. Pan fydd brawd a chwaer, neu ddau frawd, yn mynychu'r un ysgol, fel sy'n digwydd yn aml, os ydynt yn yr un dosbarth oherwydd dim ond dau ddsbarth sydd yn yr ysgol a dim ond dwy flynedd sydd rhyngddynt, maent yn dechrau arfer siarad Cymraeg gyda'i gilydd, sy'n bwysig iawn. Gallwn gyflwyno tystiolaeth ar ffurf affidafid ar hyn, a gall Matt dystio bod hyn yn wir o ran ei blant ef, ac mae hyn yn wir mewn cymunedau ledled Cymru hefyd. Wrth gwrs, cytunaf yn llwyr y dylai fod llawer mwy o ymchwil. Mae'n warthus bod bwriad i symud ymlaen a gwneud newidiadau mor sylfaenol heb fod mwy o ymchwil yn cael ei wneud.

There is one very important point when it comes to school sizes, and this is one of the advantages of mixed-age classes. When you have a brother and sister, or two brothers, attending the same school, as is often the case, if they are in the same class because there are only two classes in the school and there is only a two-year age gap between them, they begin to get used to speaking Welsh with each other, which is vital. We can present evidence in the form of affidavits, and Matt can testify that this is true of his children, and it is true in communities throughout Wales. Of course, I completely agree that there should be more research. It is disgraceful that there is an intention to move forward to make such fundamental changes without more research being undertaken.

[29] **Alun Ffred Jones:** Yr ydych wedi honni—ac ni wn beth yw'r dystiolaeth—fod symud plant o un gymuned i'r llall yn ddrwg i'w datblygiad haddysgol. A fydech yn cytuno felly bod symud plant o un ardal i ardal arall hefyd yn ddrwg i'w datblygiad haddysgol hwy yn gyffredinol?

**Alun Ffred Jones:** You have claimed—and I do not know the evidence for this—that moving children from one community to another is bad for their educational development. Would you agree that moving children from one area to another is also bad for their educational development, generally?

[30] **Mr Ffransis:** Byddwn yn cytuno'n llwyr â hynny. Credaf y bu'r holl syniadaeth addysgol a ddaeth o Lundain yn ystod blynyddoedd y Prif Weinidog Thatcher yn ddinistriol iawn i addysg yn gyffredinol, sef y syniad o ryddid ffug, o symud pobl o gwmpas ac o drin ysgolion fel archfarchnadoedd y gellir dewis rhyngddynt. Byddai'n well o lawer pe bai pawb yn gweithio tuag at sicrhau bod ganddynt yr ysgolion cymunedol gorau posibl. Er mwyn gwireddu hynny, rhaid sicrhau bod yr holl gyfleusterau, megis meithrinfeydd, ar gael mewn ysgolion.

**Mr Ffransis:** I would agree completely with that. I believe that the whole educational ideology that emanated from London during the years of Prime Minister Thatcher was greatly detrimental to education in general, namely the idea of false freedom, of moving people around and of treating schools as though they were supermarkets that you could choose between. It would be far better if people worked towards ensuring that they had the best possible community schools. In order to realise that, we must ensure that all the facilities, such as nurseries, are available in schools.

[31] **Alun Ffred Jones:** Felly, byddech yn

**Alun Ffred Jones:** Therefore, you would

condemnio'r rhieni hynny sy'n symud eu plant o un dalgylch ysgol i ddalgylch arall.

[32] **Mr Ffransis:** Nid fy lle i yw condemnio a mynegi barn am bobl; fy lle i yw creu cyfundrefnau sy'n helpu pobl i wneud y penderfyniadau gorau. Os gallwn sicrhau ein bod yn edrych, fel y gobeithiaf y byddwch yn ei wneud, ar ysgolion pentref mewn cyd-destun cymunedol ehangach fel eu bod yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau, credaf y bydd yn haws i rieni ddod i'r casgliadau yr wyf fi a chithau yn gobeithio y byddant yn eu cyrraedd.

[33] **Alun Ffred Jones:** Yr ydych wedi haeru bod symud plant allan o'u cymunedau i gael addysg mewn cymuned arall yn ddrwg i'w datblygiad. Dyna a ddywedasoeh; mae hynny'n gywir, onid yw?

[34] **Mr Ffransis:** Yr hyn a ddywedais yw bod gennym broblem gyffredinol yng ngwledydd Prydain am fod addysg yn cael ei thrin fel rhyw arallfyd cyfochrog, fel rhywbeth ar wahân i fywyd. Byddai'n well o lawer, yn addysgol, pe bai addysg yn rhan o'r gymuned, pe bai llawer mwy o bobl o'r gymuned yn mynd i ysgolion, a phe bai ysgolion yn astudio materion yn ymwneud â'r gymuned leol. Mae cryfhau'r cyswllt hwnnw yn bwysig a dylai gwleidyddion wneud popeth posibl i hybu hynny. Mae hynny'n wahanol i farnu neu ddod i farn gyhoeddus ar benderfyniadau rhieni unigol o fewn cyfundrefn ffaeledig. Nid wyf yn fodlon mynd ar hyd y trywydd hwnnw.

[35] **Alun Ffred Jones:** Gadewch y condemnio, felly, ond gwnaethoch achos cryf iawn, o ran Mynyddcerrig, bod symud y plant hynny i ysgol arall—sut bynnag yr ydych yn ei ddiffinio—yn gwneud cam â nhw o ran eu datblygiad addysgol neu eu datblygiad personol. Yr hyn yr wyf yn ei ofyn, felly, yw a yw'r gwrthwyneb yn wir. A ydych yn teimlo bod plant sy'n cael eu symud i mewn i ysgolion, weithiau i ysgolion bach, yn cael cam am eu bod yn cael eu symud allan o'u cymunedau?

[36] **Mr Ffransis:** A gaf ateb mewn dwy frawddeg syml? Yn gyntaf, ac yr wyf yn falch o weld bod Matt wedi cyrraedd, nid

condemn those parents who move their children from one catchment area to another.

**Mr Ffransis:** It is not my place to condemn or to state my opinion of people; my place is to create regimes that help people to make the best decisions. If we can ensure that we look, as I hope you will, at village schools in a wider community context so that they offer a greater variety of services, I think that it will be easier for parents to reach the conclusions that you and I hope that they will come to.

**Alun Ffred Jones:** You have alleged that moving children from their communities to be educated in another community is bad for their development. That is what you said; that is correct, is it not?

**Mr Ffransis:** What I said was that we have a problem in general in the nations of Britain in that education is treated as some sort of parallel universe, as something that is separate to life. It would be much better, educationally, if education was part of the community, if many more people from the community went into schools, and if schools studied issues appertaining to the local community. Strengthening that link is important and politicians should do everything possible to promote that. That is totally different to judging, or coming to a public view on, the decisions of individual parents within a failed system. I am not willing to go down that route.

**Alun Ffred Jones:** Leave aside the condemnation, therefore, but you made a very strong case, in relation to Mynyddcerrig, that moving those children to another school—however you define it—had a detrimental effect on them in terms of their educational or personal development. Therefore, I am asking whether the opposite is true. Do you feel that children who are moved in to schools, sometimes to small schools, are detrimentally affected because they have been moved out of their communities?

**Mr Ffransis:** May I answer with two simple sentences? First, and I am pleased to see that Matt has arrived, that is not exactly what I

dyna'n union a ddywedais ynglŷn ag achos Mynyddcerrig. Dywedais y byddai eu symud i ysgol arall yn cael effaith ar eu hagweddu tuag at y Gymraeg, ond, fel mae'n digwydd, yr oedd y sefyllfa'n llawer gwaeth na hynny. Unwaith yr ydych yn colli ysgol eich union gymuned, er mwyn cyfleustra, ac am fod rhieni'n ceisio gwneud eu gorau dros eu plant, mae'r plant hynny'n cael eu chwalu i bob cyfeiriad, ac mae'r rhieni'n eu dilyn hefyd. Mae'r holl deimlad o gymuned ymhlith y plant a'r rhieni'n cael ei chwalu. Gan mai honno oedd y gymuned Gymraeg yn y pentref, mae'n niweidiol iawn i'r plant, i'r Gymraeg ac i'r gymuned.

[37] O ran symud plant i'r cyfeiriad arall, yr hyn yr wyf am ei ddweud—mae'n ddrwg gennyf fy mod yn ailadrodd fy hun—yw fy mod yn credu y byddai'n well pe baem yn gallu creu cyfundrefnau yn seiliedig ar gydweithio yn hytrach na chystadleuaeth, lle gallai pawb gydweithio tuag at sicrhau dyfodol ein hysgolion a'n cymunedau, a bod yr ysgolion hynny'r gorau y gallent fod a bod y plant yn mynychu'r ysgolion hynny. Dyna fyddai'r drefn fwyaf naturiol a'r drefn orau. Ein gwaith ni i gyd yw sicrhau trefn sy'n galluogi rhieni i wneud penderfyniadau o'r fath. Dan y drefn ffaledig bresennol, nid wyf am feirniadu penderfyniadau personol.

[38] **Alun Ffred Jones:** Yr wyf am ofyn un cwestiwn arall ynglŷn â beth sy'n gymuned a beth nad yw'n gymuned. Mae nifer o enghreifftiau bellach ar hyd a lled Cymru o'r hyn a elwir yn ysgol ardal. Yr ydych chi, i bob pwrpas, yn condemnio'r datblygiadau hynny, lle caewyd ysgolion llai. Yr wyf yn meddwl am Ffridd y Llyn ym Meirionnydd a Phentre Uchaf yn Llŷn, ac mae Llangernyw wedi'i sefydlu ers y 1970au. Hyd y gwyddoch, a oes unrhyw dystiolaeth—cymeraf eich bod wedi edrych ar enghreifftiau tebyg—bod plant a rhieni yn llai hapus neu'n anfodlon a bod y broses wedi cael effaith ar y pentrefi lle caewyd ysgolion?

[39] **Mr Ffransis:** Cewch fwy o oleuni ar y mater hwn yn ystod eich ymweliad â sir Benfro yr wythnos nesaf. Byddwch yn gallu holi'r union bobl yn hytrach na derbyn gwybodaeth ail-law gennyf i. Mae'r unig wybodaeth llaw cyntaf y gallaf ei rhoi yn

said about the case of Mynyddcerrig. I said that moving them to another school would have an impact on their attitudes towards the Welsh language, but, as it happens, the situation was much worse than that. Once you lose the school within your immediate community, for convenience's sake, and because parents want to do what is best for their children, those children are scattered in all directions, and their parents follow them too. The whole community feeling among the children and their parents is lost. As that was the Welsh community in the village, that is very detrimental to the children, to the Welsh language and to the community.

As regards moving children in the other direction, what I want to say—I am sorry that I am repeating myself—is that I believe that it would be better if we were able to create systems based on collaboration rather than competition, where everyone could collaborate to ensure the future of our schools and communities, and that those schools were the best that they could be and that the children attended those schools. That would be the natural order and the best system. Our task is to provide a system that enables parents to take such decisions. Under the current failed system, I do not want to criticise personal choices.

**Alun Ffred Jones:** I will ask one more question about what constitutes a community and what does not. There are now many examples across Wales of what is called an area school. To all extents and purposes, you are condemning those developments, where smaller schools were closed. I am thinking of Ffridd y Llyn in Meirionnydd and Pentre Uchaf on the Llŷn peninsula, and the school that was established in Llangernyw in the 1970s. As far as you are aware, is there any evidence—I take it that you have looked at similar examples—that children and parents are less happy or are dissatisfied, or that the process has affected the villages where schools were closed?

**Mr Ffransis:** More light will be shed on this matter during your visit to Pembrokeshire next week, when you will be able to ask the people involved rather than take second-hand information from me. The only first-hand information that I can give concerns my own

ymwneud â'm hardal fy hun. Mae'r gymuned o blant yn Llanfihangel-ar-Arth wedi chwalu'n llwyr wrth i'r plant gael eu hanfon i wahanol gyfeiriadau; nid oes cymuned yn eu plith, mae hynny'n sicr. Mae'n rhy gynnar i fesur canlyniadau academaidd, ond mae'n sicr o gael effaith, byddai rhywun yn tybio, ar addysg y plant, gan nad oes ganddynt yr un gefnogaeth gymunedol.

[40] O ran eich union gwestiwn am yr effaith ar y gymuned, genhedlaeth yn ôl, yr oedd pob math o gyfundrefnau yn cynnal cymunedau gwledig, fel ffermwyr ifanc, llwythi o bobl yn gweithio ar y tir, capeli a phob math o sefydliadau. Ond, erbyn hyn, mae ein holl gymunedau pentrefol dan warchae, dan ymosodiad o bob cyfeiriad. Felly, yn y sefyllfa bresennol, mae'n llawer pwysicach nag yr oedd genhedlaeth yn ôl, pan welwyd newidiadau yn Llangernyw a'r ardal honno. Mae'n llawer pwysicach yn awr bod gan y gymuned bentrefol adnodd cryf i sicrhau adferiad.

11.40 a.m.

[41] Byddwn yn eich gwahodd i ystyried, er enghraifft, faint o oedolion ifanc o bentref fel Pandy Tudur, sef un o'r pentrefi sydd yn bwydo ysgol yr ardal honno, sy'n prynu tŷ yno. Mae'r mwyafrif ohonynt yn dewis prynu neu adeiladu tŷ yn Llangernyw, lle mae'r ysgol ardal, yn hytrach nag yn y pentrefi eraill. Nid yw'r pentrefi hyn yn marw dros nos; mae'n ddedfryd ohiriedig o farwolaeth ar y pentrefi.

[42] **Alun Davies:** Cyn imi ddod â Brynle mewn, croesawaf Mr Dix i'r cyfarfod. Mr Dix, mae Mr Ffransis wedi gwneud sylwadau agoriadol, ac yr ydym yn holi cwestiynau yn seiliedig ar hynny ac ar y dystiolaeth ysgrifenedig sydd wedi'i rhoi inni. Teimlwch yn rhydd i gyfrannu i'r atebion.

[43] **Brynle Williams:** Yr ydych wedi cyffwrdd â rhywbeth yr wyf fi yn ei ystyried yn bwysig ofnadwy o ran ysgolion pentrefi bach. Oni fydddech yn cytuno mai'r rheswm nad yw pobl ifanc yn dod yn ôl i fyw yn y pentrefi hyn yw nad oes tai fforddiadwy ar gael iddynt, yn hytrach nag o achos yr ysgolion? Sut y bydddech yn datrys y broblem honno? Ai mater i ni, i'r cyngor sir neu i

area. The community of children in Llanfihangel-ar-Arth has been completely shattered as the children have been sent in all directions; there is certainly no community among them. It is too early to measure academic results, but it is certain to have an impact on the children's education, one would assume, because they are not receiving the same community support.

On your question about the impact on the community, if you go back a generation, there were many systems that sustained rural communities, such as young farmers, the many people who worked the land, chapels and all sorts of organisations. However, all our village communities are now under siege, under attack from all directions. Therefore, in the current climate it is much more important than it was a generation ago, when changes took place in the Llangernyw area. It is much more important now that the village community has a strong resource to ensure regeneration.

I would invite you to consider, for example, how many young adults from a village such as Pandy Tudur, which is one of the villages feeding that area school, buying a house there. The vast majority choose to buy or build a house in Llangernyw, where the area school is located, rather than in the other villages. These villages do not die overnight; it is a suspended death sentence for them.

